**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

23 Gorffennaf 2013

Annwyl Gyfaill,

Cyflwynodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar ei ymchwiliad i leihau risg o strôc ym mis Rhagfyr 2011. Canolbwynt yr ymchwiliad oedd archwilio'r ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran gwasanaethau lleihau'r risg o strôc, yn benodol i graffu ar y gwaith o weithredu *Cynllun Gweithredu Lleihau Risg o Strôc Llywodraeth Cymru.*

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, nododd y Pwyllgor ei fwriad i ddychwelyd at y pwnc o fewn dwy flynedd er mwyn ystyried ei ganfyddiadau ac argymhellion cychwynnol ymhellach. Defnyddir yr ymchwiliad dilynol hwn i ystyried pa mor effeithiol fu Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â'r gwendidau mewn gwasanaethau a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar weithredu argymhellion y Pwyllgor.

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

I lywio ei waith, mae'r Pwyllgor yn cysylltu â'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth i'r ymchwiliad gwreiddiol cyn y sesiwn tystiolaeth lafar a drefnwyd dros dro ar gyfer **dydd Mercher 23 Hydref 2013**. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi yn eich cais a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar, os cewch wahoddiad i wneud hynny.

Hoffai'r Pwyllgor glywed am **unrhyw dystiolaeth o gynnydd mewn cysylltiad â'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad 2011, a lle mae angen cynnydd o hyd**. Nid oes angen i dystiolaeth ysgrifenedig fod yn hir, ac nid oes angen ailadrodd tystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad blaenorol. Os byddwch yn anfon tystiolaeth yn electronig, byddai'n well defnyddio dogfennau Word,

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

yn hytrach na ffeiliau pdf. Dylai ymatebion gyrraedd erbyn **dydd Gwener 20 Medi 2013.**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig oherwydd ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan, er mwyn iddi ddod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fydd hynny'n berthnasol, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i **Pwyllgor.IGC@cymru.gov.uk.**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth yr ystyrir ei bod yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

**David Rees AC**
**Cadeirydd**